# Canllawiau ar geisiadau am drwydded amgylcheddol

# Rhan LPD1 – cais i ddefnyddio offer

## Cynnwys


Nodiadau cyffredinol ... 3
Yr hyn y mae angen i chi ei wneud ... 4
Faint y bydd yn ei gostio? ... 4
Cwblhau'r ffurflen ... 5
Ynglŷn â'r drwydded ... 5
Trafodaethau cyn cyflwyno'ch cais ... 5
Rhif y drwydded sy'n berthnasol i'r defnydd hwn ... 5
Deiliad y drwydded ... 5
Math y drwydded yr ydych yn dymuno defnyddio offer yn unol â hi ... 5
Manylion cyswllt ... 5
Pwy allwn ni siarad ag ef / hi? ... 5
Rheolwr technegol gymwys ac unigolyn cymwys enwebedig ... 5
Ynglŷn â'r tir yr ydych yn dymuno ei drin ... 6
Y parseli tir yr ydych yn dymuno eu trin ... 6
Defnyddiau lluosog – cyflwyno mwy nag un cais i ddefnyddio offer ar gyfer yr un darn o dir ... 6
Manylion meddiannaeth ... 7
Triniaeth tir flaenorol ... 7
Pa fand risg y mae'r gweithgaredd yn cyd-fynd ag ef? ... 7
Diogelu cynefinoedd ac ecosystemau ... 8
Ynglŷn â'r gwastraff ... 9
Ynglŷn â'r trefniadau storio ... 9
Taliadau ... 9
Dogfennau ategol ... 10
Gwybodaeth ategol ar gyfer cais defnyddio offer risg isel neu ganolig (1) ... 10
Gwybodaeth ategol ar gyfer cais defnyddio offer risg canolig (2) neu uchel ... 10
Map o'r lleoliad ... 10
Datganiad budd ... 11
Dadansoddiad gwastraff ... 11
Dadansoddiad o'r pridd sy'n derbyn y gwastraff ... 11

Asesiad risg penodol i'r safle ........ 12
Rhestr wirio cais ar gyfer SR2010 Rhif 4 ........ 14

# Nodiadau cyffredinol

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflenni. Gellir dod o hyd i'r holl ddogfennau canllaw perthnasol ar ein gwefan, neu maent ar gael ar gais. Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i gwblhau ffurflen gais Rhan LPD1.

Mae'r ddogfen ganllaw hon i'w defnyddio gyda ffurflenni defnyddio offer i daenu gwastraff ar dir lle mae'r gweithredwr yn meddu ar drwydded sy'n cyfeirio at unrhyw un o'r rheolau safonol canlynol:

- SR2010 Rhif 4 Offer symudol ar gyfer taenu ar dir (gwaith trin tir sy'n arwain at fudd amaethyddol neu ecolegol);
- SR2010 Rhif 5 Offer symudol ar gyfer adennill, adfer neu wella tir;
- SR2010 Rhif 6 Offer symudol ar gyfer taenu slwtsh carthion ar dir; neu
- Trwydded offer symudol wedi'i deilwra ar gyfer taenu ar dir neu adennill tir.

Cyn y gallwch ddefnyddio eich trwydded offer symudol ar safle, mae'n rhaid eich bod wedi llenwi ffurflen defnyddio offer a'i hanfon at Cyfoeth Naturiol Cymru gydag unrhyw wybodaeth ychwanegol angenrheidiol. Dim ond ar ôl i Cyfoeth Naturiol Cymru roi ei ganiatâd yn ysgrifenedig i'r ffurflen defnyddio offer hon y gall y gwaith gwastraff gychwyn ar y safle.

Mae'r gwaith gwastraff a gytunir o dan y ffurflen defnyddio offer yn ddilys am 12 mis o'r dyddiad a roddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gytundeb ysgrifenedig. Nid oes unrhyw broses adnewyddu ar gyfer defnyddio offer. Os byddwch yn dymuno parhau â gwaith gwastraff ar ôl y cyfnod o 12 mis, mae'n rhaid i chi gyflwyno ffurflen defnyddio offer newydd ynghyd ag unrhyw wybodaeth ategol a'r ffi gywir.

Ar ôl iddynt gael eu cytuno yn ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'n rhaid cydymffurfio â thelerau'r ffurflen defnyddio offer hon. Gellir gwneud newidiadau i'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen defnyddio offer hon, ond dim ond os yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno i'r diwygiad yn ysgrifenedig yn gyntaf y gellir gweithredu arnynt. Prin iawn yw'r newidiadau y gallwch eu gwneud ar ôl i'r defnydd offer gael ei asesu a'i gytuno. Mae rhagor o ganllawiau ar hyn ar gael yn nodyn cyfarwyddyd technegol EPR 8.01 'Sut i Gydymffurfio â'ch Trwydded Amgylcheddol – Canllawiau Ychwanegol ar Daenu Gwastraff i Weithrediadau Tir' (TGN 8.01). Mae hwn ar gael ar ein gwefan neu ar gais.

Mae'r ffurflen defnyddio offer y cytunwyd arni yn rhan o'ch trwydded offer symudol ac felly gallai gweithredu'n groes i'r ffurflen y cytunwyd arni neu unrhyw reol arall yn eich trwydded offer symudol arwain at Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd camau gorfodi. Bydd ein canllawiau 'Sut i Gydymffurfio â'ch Trwydded Amgylcheddol' yn eich helpu i wneud yn siŵr nad ydych yn torri unrhyw un o reolau eich trwydded.

Bydd angen i chi ddarllen y canllawiau ar ein gwefan ar y cyd â'r canllawiau technegol penodol ar daenu ar dir a roddir yn TGN 8.01.

Cewch gyflwyno cymaint o ffurflenni defnyddio offer ag y dymunwch. Mae hyn yn caniatáu i chi, fel deiliad y drwydded, weithredu o dan yr un drwydded offer symudol ar gynifer o safleoedd ag y mae ffurflenni defnyddio offer y cytunwyd arnynt yn ysgrifenedig gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Dim ond y prosesau trin symudol a nodir yn eich trwydded offer symudol y gellir eu dilyn.

Efallai y bydd gwaith gwastraff, gan gynnwys defnyddio offer symudol, angen cydsyniad cynllunio. Rydym yn argymell eich bod yn ceisio cyngor gan eich awdurdod cynllunio lleol cyn ymgymryd ag unrhyw waith gwastraff.

Sylwer bod y canllawiau hyn yn seiliedig ar yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer cais defnyddio offer symudol rheolau safonol. Gall yr wybodaeth y mae ei hangen amrywio ar gyfer trwyddedau pwrpasol, a rhaid i chi gyflwyno gwybodaeth yn unol â'r hyn a gytunwyd yn benodol ar gyfer y drwydded bwrpasol.

Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu i lenwi'r ffurflen defnyddio offer. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi ddilyn TGN 8.01 a ddarperir i sicrhau eich bod yn cyflwyno cais defnyddio offer boddhaol.

## Yr hyn y mae angen i chi ei wneud

Bydd yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn y ffurflen defnyddio offer yn ein helpu i benderfynu a all eich defnydd offer arfaethedig gydymffurfio â rheolau eich trwydded. Mae'n bwysig eich bod yn cwblhau'r ffurflen yn gywir gan y bydd yn ein helpu i ymdrin â'ch cais yn gyflymach.

Pan fyddwch yn gwneud y cais, gofalwch eich bod yn gwneud y canlynol:

- Atebwch bob cwestiwn. Os oes yna rai cwestiynau nad ydynt yn berthnasol i chi, ysgrifennwch 'Amherthnasol' a rhowch gyfiawnhad. Os byddwch yn hepgor unrhyw beth, efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi i gael yr wybodaeth, a gallai hyn ohirio ein penderfyniad.

- Caniatewch o leiaf 25 diwrnod gwaith o'r adeg y mae eich cais yn gyflawn i ni wneud ein hasesiad. Bydd y cais yn cael ei ystyried yn gyflawn pan fydd yr holl ddogfennau wedi cael eu hanfon a'ch bod wedi talu'r ffi gywir.

Os byddwch yn cynnal unrhyw waith gwastraff, gan gynnwys storio gwastraff, heb gadarnhad ysgrifenedig bod y defnydd offer wedi'i gytuno, byddwch yn cyflawni trosedd o ddyddodi gwastraff heb drwydded.

## Faint y bydd yn ei gostio?

Mae manylion y taliadau i'w gweld yn yr adran 'Ein taliadau' ar ein gwefan.

# Cwblhau'r ffurflen

## Ynglŷn â'r drwydded

### Trafodaethau cyn cyflwyno'ch cais

Os ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru am y defnydd offer hwn cyn cyflwyno'r cais, rhowch y cyfeirnod neu anfonwch fanylion ar dudalen ar wahân. Cyfeiriwch at unrhyw ddogfennau yn nhabl 6 LPD1.

### Rhif y drwydded sy'n berthnasol i'r defnydd hwn

Nodwch rif y drwydded sy'n berthnasol i'r defnydd offer. Ni allwn sicrhau defnydd offer oni bai fod trwydded berthnasol mewn grym.

### Deiliad y drwydded

Rhowch enw deiliad y drwydded sy'n gwneud y cais.

### Math y drwydded yr ydych yn dymuno defnyddio offer yn unol â hi

Dewiswch yr opsiwn sy'n berthnasol, yn seiliedig ar y math o drwydded sydd gennych a'r gweithgaredd yr ydych yn dymuno ei gyflawni. Mae'n rhaid i'r gweithgaredd a nodir yn y cais i ddefnyddio offer gyd-fynd â graddau'r gweithgaredd(au) yn y drwydded berthnasol. Er enghraifft, y mathau o wastraff, tunelledd, mathau o driniaeth ac ati.

## Manylion cyswllt

### Pwy allwn ni siarad ag ef / hi?

Rhowch fanylion y sawl a fydd yn gyswllt ar gyfer ymholiadau am yr wybodaeth yn y ffurflen defnyddio offer hon. Gallai hwn fod yn weithredwr neu'n unigolyn sy'n gweithredu ar ran y gweithredwr, fel ymgynghorydd.

Dylai'r unigolyn allu ateb ymholiadau am unrhyw ddarn o wybodaeth yn y ffurflen, neu wybodaeth ychwanegol fel y datganiad budd neu'r asesiadau risg. Efallai y byddwn angen siarad ag ef / hi hefyd os bydd unrhyw wybodaeth neu'r ffi ar goll neu'n anghywir. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau nad yw cytuno'r ffurflen defnyddio offer yn cael ei ohirio heb fod angen.

### Rheolwr technegol gymwys ac unigolyn cymwys enwebedig

Mae'n rhaid i bob deiliad trwydded amgylcheddol ddangos cymhwysedd technegol ar y cam gwneud cais am drwydded, neu'n unol ag unrhyw ddarpariaethau pontio a allai roi amser i gymhwysedd technegol gael ei gaffael. Bydd rheolwr technegol gymwys yn cael eu nodi ar yr adeg hon.

Pan ddefnyddir offer symudol, gellir ymgymryd â'r gweithgaredd gryn bellter o brif swyddfa deiliad y drwydded. Pan fo offer yn cael eu defnyddio ar draws y wlad, rydym angen gwybod y gall y gweithredwr fodloni'r gofynion o sicrhau bod ganddo reolaeth dros weithrediadau o ddydd i ddydd drwy ei weithdrefnau rheoli ac unrhyw drefniadau contractiol. Os bydd pethau'n mynd o'i le, deiliad y drwydded sy'n atebol yn y pen draw. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i chi enwebu unigolyn cymwys a fydd yn brif gyswllt ar gyfer y defnydd offer ac a fydd yn atebol i'r rheolwr technegol gymwys.

Mae'n rhaid i'r unigolyn cymwys enwebedig allu ymweld â safleoedd i sicrhau nad yw'r gwaith gwastraff yn achosi unrhyw broblemau amgylcheddol. Mae'n rhaid iddo allu cyrraedd y safle mewn amser rhesymol rhag ofn y bydd unrhyw broblemau yn codi, neu os bydd swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru yn dymuno cyfarfod ag ef ar y safle.

Efallai y bydd sawl unigolyn cymwys enwebedig ar gyfer unrhyw un gweithredwr. Mae canllawiau ychwanegol ar yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan reolwyr technegol gymwys ac unigolion cymwys enwebedig wedi'u cynnwys yn TGN 8.01.

# Ynglŷn â'r tir yr ydych yn dymuno ei drin

Rhowch brif gyfeiriad y fferm, y swyddfa neu'r safle lle bydd y taenu yn digwydd.

Nodwch y math o dir sy'n cael ei drin. Os mai tir amaethyddol ydyw, rhowch eich rhif sir / plwyf / daliad i ni. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall yn well yr holl weithgareddau sy'n digwydd ar y tir ac yn ein helpu i weithio'n well gyda chi.

## Y parseli tir yr ydych yn dymuno eu trin

Rhowch fanylion y caeau neu'r darnau o dir i'w trin.

Mae'n rhaid i gyfanswm arwynebedd y tir fod yn 50 hectar neu lai, neu'n 100 hectar ar gyfer un darn o dir a reolir yn barhaus. Mae'n rhaid i unrhyw barseli tir o dan un drwydded defnyddio offer fod o fewn radiws o 10 milltir i'r cyfeiriad cyffredinol a ddarperir.

Nodwch fanylion y tir. Mae'n rhaid i'r rhain gynnwys enw, rhif neu gyfeirnod y cae; maint yr ardal sy'n cael ei thrin (ac eithrio clustogfeydd, coetir neu dir na fydd yn cael ei daenu am reswm arall); a chyfeirnod grid cenedlaethol 12 ffigur cywir.

Gellir dod o hyd i gyfeirnodau grid ar UK Grid Reference Finder.

## Defnyddiau lluosog – cyflwyno mwy nag un cais i ddefnyddio offer ar gyfer yr un darn o dir

Cewch daenu mwy na 10 ffrwd wastraff ar yr un darn o dir cyn belled â'ch bod yn cyflwyno ffurflenni defnyddio offer pellach wedi'u cwblhau'n llawn yn rhestru'r gwastraff ychwanegol. Bydd angen i chi roi gwybod i ni os ydych yn cyflwyno mwy nag un cais i ddefnyddio offer. Mae'n rhaid i'ch datganiad budd ystyried cyfanswm y budd i'r tir o bob math o wastraff sydd i'w daenu.

## Manylion meddiannaeth

Os nad deiliad y drwydded yw perchennog neu feddiannydd y tir, mae'n rhaid i chi ddarparu enw a manylion cyswllt meddiannydd y tir lle bydd y gwaith yn cael ei gyflawni. Efallai mai'r tirfeddiannydd neu'r tenant fydd hwn. Mae'n rhaid i chi hefyd ddarparu cydsyniad ysgrifenedig y meddiannydd yn dangos y cytundeb y gellir cynnal y gwaith ar y tir. Rhaid i'r cydsyniad ysgrifenedig fod yn ddogfen wedi'i llofnodi a'i dyddio gan y tirfeddiannydd / meddiannydd sy'n cynnwys:

- Enw(au) y fferm
- Cyfeirnod(au) y cae
- Manylion y gwastraff sydd i'w wasgaru ar bob cae
- Lleoliadau storio'r gwastraff.

Os oes mwy nag un meddiannydd gan fod y driniaeth yn digwydd mewn mwy nag un ardal, rhaid i chi gynnwys manylion yr holl feddianwyr eraill gyda'ch gwybodaeth ategol, gan gynnwys cydsyniad ysgrifenedig gan bob meddiannydd.

# Triniaeth tir flaenorol

Os yw'r tir wedi'i drin â mathau eraill o wastraff, slyri neu dail, gwrteithiau neu gyflyrwyr pridd yn ystod y 12 mis diwethaf, dylid cynnwys yr wybodaeth hon a'i hystyried wrth gynnal eich dadansoddiad budd. Dylech sicrhau eich bod wedi trafod hyn gyda pherchennog neu feddiannydd y tir fel eich bod yn ymwybodol o'r hyn y mae ef neu weithredwyr eraill wedi ei daenu neu'n bwriadu ei daenu ar y tir hwnnw cyn y gwastraff yr ydych chi'n ei daenu.

Mae'n rhaid i chi gynnwys y canlynol:

- Manylion y gwastraff a daenwyd o dan drwydded defnyddio offer flaenorol gan gynnwys unrhyw gyfeirnod. Er enghraifft, PAN-123456;
- Gwastraff a daenwyd o dan esemptiadau gwastraff U10 neu U11;
- Slwtshys tanc carthion a slwtsh carthion a daenwyd o dan y Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol);
- Sgil-gynhyrchion anifeiliaid a daenwyd o dan y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (na chaniateir o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol);
- Mathau o dail a slyri;
- Deunyddiau a daenwyd o dan brotocol ansawdd neu ddiwedd gwastraff.

# Pa fand risg y mae'r gweithgaredd yn cyd-fynd ag ef?

Bydd y drwydded yr ydych yn defnyddio offer oddi tani, y gwastraff i'w daenu a'r lleoliad lle bydd y taenu'n digwydd yn pennu band risg y cais i ddefnyddio offer. Bydd hyn yn effeithio ar y ffi ymgeisio a'r dogfennau ategol y mae eu hangen.

Diffinnir lleoliad risg is fel un nad yw o fewn parth gwarchod tarddiad dŵr 2, a/neu dros 500 metr o safle Ewropeaidd, Ramsar, neu safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA).

Diffinnir lleoliad risg uwch fel un sydd o fewn parth gwarchod tarddiad dŵr 2, a/neu 500 metr neu lai o safle Ewropeaidd, Ramsar, neu SoDdGA.

Mae'r bandiau risg fel a ganlyn:

- Os ydych yn taenu gwastraff rhestr A o SR2010 Rhif 4 mewn lleoliad risg is, mae'n gais defnyddio offer risg isel.
- Os ydych yn taenu gwastraff rhestr A o SR2010 Rhif 4 mewn lleoliad risg uwch, mae'n gais defnyddio offer risg canolig (2).
- Os ydych yn taenu gwastraff rhestr B o SR2010 Rhif 4 mewn lleoliad risg is, mae'n gais defnyddio offer risg canolig (1).
- Os ydych yn taenu gwastraff rhestr B o SR2010 Rhif 4 mewn lleoliad risg uwch, mae'n gais defnyddio offer risg uchel.
- Os ydych yn taenu unrhyw wastraff rhestredig o naill ai SR2010 Rhif 5 neu SR2010 Rhif 6 mewn lleoliad risg is, mae'n gais defnyddio offer risg canolig (1).
- Os ydych yn taenu unrhyw wastraff rhestredig o naill ai SR2010 Rhif 5 neu SR2010 Rhif 6 mewn lleoliad risg uwch, mae'n gais defnyddio offer risg uchel.
- Os ydych yn taenu gwastraff o dan drwydded offer symudol pwrpasol, mae'n gais defnyddio offer risg uchel.

Gweler yr adrannau Dogfennau Ategol a Thaliadau am ragor o wybodaeth am y dogfennau ategol y mae eu hangen, a pha ffi ymgeisio ar sail risg sy'n berthnasol.

## Diogelu cynefinoedd ac ecosystemau

Cyfrifoldeb y tirfeddiannydd yw gwirio a ydyw'r tir y mae eich gwastraff yn cael ei daenu arno yn ddarostyngedig i Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017. Dull yw'r rheoliadau hyn o warchod cynefin lled-naturiol a heb ei drin ac sy'n sicrhau nad yw prosiectau ("taenu ar dir") yn cael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd.

Mae'n rhaid i chi ddangos bod y tir dan sylw yn dod o fewn cwmpas Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 fel (cynefin) lled-naturiol, neu beidio.

Os nad yw'n rhan o'r cwmpas a'ch bod yn rhoi'r ateb "nac ydyw", mae'n rhaid i chi ddangos sut yr ydych wedi dod i'r casgliad hwn, gan ddarparu tystiolaeth; e.e. ffotograffau sy'n dangos bod y tir eisoes wedi'i wella'n amgylcheddol. Dim ond os yw'r tir yn rhan o'r cwmpas y bydd arnoch angen penderfyniad sgrinio. Os yw'n dir wedi ei wella, ni fyddwch angen sgrinio.

Os yw'n rhan o'r cwmpas a'ch bod yn rhoi'r ateb "ydyw", mae'n rhaid i chi gyflwyno cais sgrinio asesiad o'r effaith amgylcheddol i Lywodraeth Cymru i daenu gwastraff ar y tir a

chydymffurfio â'r penderfyniad sgrinio. Mae'n rhaid i chi ddarparu'r penderfyniad sgrinio a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi bod y tir yn addas i daenu gwastraff arno er ei fod yn rhan o'r cwmpas.

Os bydd y farn sgrinio yn nodi bod y tir yn rhan o'r cwmpas ac nad yw'n addas ar gyfer taenu gwastraff, bydd y cais i ddefnyddio offer yn cael ei ddychwelyd i chi.

Yr unig dystiolaeth y byddwn yn ei derbyn yw barn sgrinio a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Ceir gwybodaeth am sut i gael y farn sgrinio ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru ar asesu effaith amgylcheddol yn y maes amaethyddol.

## Ynglŷn â'r gwastraff

Gellir hysbysu uchafswm o 10 ffrwd wastraff ar gyfer pob cais i ddefnyddio offer. Mae'r rheolau safonol taenu ar dir yn diffinio "ffrwd wastraff" fel un math o wastraff, sy'n deillio o un safle. Dylid disgrifio ffrydiau gwastraff unigol sydd wedi cael eu cymysgu gyda'i gilydd yn unigol, a dylid rhestru pob un yn y tablau fel ffrydiau gwastraff ar wahân.

Mae'n rhaid i'r gwastraff yr ydych yn bwriadu ei daenu a'i storio fod yn wastraff a restrir yn y drwydded y mae'r cais hwn yn ymwneud â hi. Rhaid i chi ddefnyddio'r cod rhestr o wastraff chwe digid mwyaf priodol a rhoi disgrifiad cywir o'r gwastraff yr ydych yn bwriadu ei daenu, a all gyfeirio at ddisgrifiad ysgrifenedig y rhestr o wastraff, ond nid yn unig. Bydd cynhyrchydd y gwastraff yn defnyddio'r canllawiau technegol ar ddosbarthu gwastraff – WM3. Bydd angen i chi wirio bod y cod y mae eich cynhyrchydd gwastraff wedi ei ddefnyddio yn cael ei ganiatáu o dan eich trwydded rheolau safonol.

Rhaid nodi ffurf ffisegol y gwastraff (hylif, solid, slwtsh ac ati), gan gynnwys a ydyw'r gwastraff yn bentyradwy neu'n amhentyradwy. Mae 'pentyradwy' yn golygu deunydd sy'n ddigon cadarn i'w bentyrru mewn pentwr sy'n gallu sefyll yn annibynnol heb gwympo, ac na fydd yn caniatáu draenio rhydd o'r tu mewn i'r deunydd wedi'i bentyrru. Caiff pob gwastraff arall ei ddosbarthu'n amhentyradwy.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym a oes gan y gwastraff gyfraddau uchel o nitrogen sydd ar gael yn rhwydd fel y diffinnir yn eich trwydded. Mathau o wastraff organig yw'r rhain y mae mwy na 30% o gyfanswm eu cynnwys nitrogen ar gael i'r cnwd ar adeg y taenu.

## Ynglŷn â'r trefniadau storio

Os byddwch yn dymuno storio gwastraff o dan y cais i ddefnyddio offer hwn, rhowch gyfeiriad, cyfeirnod grid cywir a faint yr ydych yn bwriadu ei storio ar unrhyw un adeg. Sylwch fod yn rhaid storio gwastraff yn y man lle caiff ei ddefnyddio a lle y cytunwyd ar ffurflen defnyddio offer ddilys, ac na ellir storio mwy na 3,000 tunnell o wastraff ar unrhyw un adeg o dan unrhyw un defnydd, ac na fydd mwy na 1,250 tunnell o'r gwastraff hwn yn amhentyradwy.

## Taliadau

Ar ôl i chi ganfod y band ffioedd ar gyfer y cais i ddefnyddio offer hwn, ticiwch un o'r blychau a ddarperir i ddynodi'r dull talu yr ydych yn ei ffafrio. Yna, cwblhewch yr wybodaeth berthnasol ar gyfer yr opsiwn yr ydych wedi ei ddewis.

I ganfod pa fand ffioedd yr ydych ynddo, dylech gyfeirio at ein cynllun codi tâl blynyddol sydd ar gael ar dudalen Ein taliadau ar ein gwefan.

# Dogfennau ategol

## Gwybodaeth ategol ar gyfer cais defnyddio offer risg isel neu ganolig (1)

Os yw'n gais defnyddio offer risg isel neu ganolig (1) mae'n rhaid i chi ddarparu o leiaf gynllun lleoliad, dadansoddiad o'r gwastraff, dadansoddiad o'r pridd sy'n ei dderbyn a datganiad budd.

Gallwch ddefnyddio'r asesiad risg generig ar gyfer safleoedd Ewropeaidd, Ramsar a SoDdGA a pharth gwarchod tarddiad dŵr 2.

Mae'n rhaid i chi asesu'r risg a chynhyrchu mesurau lliniaru ar gyfer unrhyw dderbynyddion sensitif eraill a chynnwys y mesurau lliniaru hyn yn eich datganiad budd, e.e. ar gyfer sŵn neu arogl.

## Gwybodaeth ategol ar gyfer cais defnyddio offer risg canolig (2) neu uchel

Os yw'n gais defnyddio offer risg canolig (2) neu uchel, mae'n rhaid i chi ddarparu o leiaf gynllun lleoliad, dadansoddiad o'r gwastraff, dadansoddiad o'r pridd sy'n ei dderbyn, datganiad budd ac asesiad risg sy'n safle-benodol.

Mae'n rhaid i'r asesiad risg safle-benodol ddangos sut yr ydych wedi rheoli risgiau o'ch gwaith gwastraff i safleoedd Ewropeaidd, Ramsar a SoDdGA a/neu o fewn parth gwarchod tarddiad dŵr daear 2, a derbynyddion sensitif eraill lle nodwyd.

## Map o'r lleoliad

Mae'n rhaid i chi ddarparu map neu fapiau yn amlinellu ffiniau'r ardal(oedd) sy'n cael eu trin (ffiniau cae / fferm neu safle).

Mae'n rhaid i fformat unrhyw fapiau neu gynlluniau yr ydych yn eu hanfon atom:

- fod yn dudalen A4 neu A3;
- dangos arwynebedd y tir sy'n rhan o'ch cais;
- bod yn seiliedig ar fap Arolwg Ordnans ar raddfa o 1:10,000 neu fwy;
- labelu mannau ac ardaloedd unigol ('A', 'B' ac yn y blaen);
- defnyddio lliw neu linellau i amlygu ardaloedd ar y map; a
- defnyddio'r ffurflen i groesgyfeirio at ardaloedd a labelwyd ac a amlygwyd ar y map.

## Datganiad budd

Mae'n rhaid i chi ddarparu datganiad budd gyda phob cais i ddefnyddio offer a ysgrifennwyd gan unigolyn ag arbenigedd technegol priodol. Mae'n rhaid i hwn ddisgrifio sut y bydd y gweithgaredd yn arwain at fudd a dangos na fydd taenu gwastraff at ddiben adfer yn achosi niwed i'r amgylchedd. Os yw'r tir wedi cael ei drin gyda mathau eraill o wastraff, slyri neu dail ac ati yn y 12 mis diwethaf, dylid cynnwys yr wybodaeth hon a'i hystyried wrth gynnal eich dadansoddiad budd.

Mae canllawiau ychwanegol wedi eu cynnwys yn TGN 8.01. Ceir gwybodaeth hefyd am amrywiaeth o fathau o wastraff gan gynnwys manteision ac effeithiau negyddol posibl yn Atodiad A TGN 8.01.

Rydym wedi darparu datganiad budd enghreifftiol a thempled.

## Dadansoddiad gwastraff

Mae dadansoddiad gwastraff cyfredol yn ofyniad o'ch cais i ddefnyddio offer. Heb hwn, ni ellir asesu'r buddion o daenu gwastraff ar dir.

Mae canllawiau ar yr amlder dadansoddi a'r manylion gofynnol yr ydym yn eu disgwyl ar gyfer dadansoddi gwastraff wedi eu cynnwys yn TGN 8.01.

Ar gyfer priddoedd gwastraff, byddwn yn derbyn data o labordai yn unig a dulliau sydd wedi derbyn dyfarniad cynllun ardystio gwaith monitro MCERTS. Mae canllawiau ar y drefn hon o brofi priddoedd gwastraff wedi eu cynnwys yn TGN 8.01.

Os ydych yn dymuno taenu slwtsh carthion ar dir, mae'n rhaid dilyn y paramedrau dadansoddi pridd a amlinellir yn adran 3 y 'Cod Ymarfer ar gyfer Defnyddio Slwtsh Carthion' (Monitro slwtsh ac ansawdd pridd).

Mae Atodiad A TGN 8.01 yn rhoi manylion penodol ar fanteision ac effeithiau negyddol posibl amrywiaeth o fathau o wastraff.

## Dadansoddiad o'r pridd sy'n derbyn y gwastraff

Mae'n rhaid dadansoddi samplau cynrychiadol o'r pridd o'r caeau neu dir y bydd y gwastraff yn cael ei daenu arno.

Dylai dadansoddiad maethynnau pridd ddilyn yr amlder a gynghorir yn y methodoleg yn y Canllaw Rheoli Maethynnau (RB209). Mae canllawiau ychwanegol wedi eu cynnwys yn TGN 8.01.

Dylai'r dulliau dadansoddi gyd-fynd â rhai a roddir yn RB209 a'r 'Manyleb ar gyfer Uwchbridd, Safon Brydeinig 3882, 2007'.

Mae canllawiau ar addasu priodweddau priddoedd gan ddefnyddio mathau o wastraff a ddefnyddir yn gyffredin wedi eu cynnwys yn TGN 8.01.

# Asesiad risg penodol i'r safle

## Beth y mae'r asesiad risg yn ei olygu?

Mae asesu risg yn golygu nodi cysylltiadau ffynhonnell–llwybr–derbynnydd ac yna cyflwyno'r rheolaethau rheoli sy'n dileu neu'n lleihau unrhyw risgiau i'r derbynnydd. Mae'n rhaid i chi nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd i reoli'r risg i'r derbynyddion sensitif a nodir. Dylai'r rhain gynnwys gweithdrefnau rheoli a gweithredu ysgrifenedig sy'n ofynnol yn rhan o'ch trwydded i reoli unrhyw risg i iechyd pobl neu lygredd i'r amgylchedd. Mae'r rheolaethau a roddir ar waith yn dibynnu ar briodweddau'r gwastraff a pha mor sensitif yw'r derbynyddion. Mae canllawiau ychwanegol wedi eu cynnwys yn TGN 8.01 ac yn Asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau penodol: trwyddedau amgylcheddol.

## Dod o hyd i wybodaeth am dderbynyddion sensitif

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth yn:

- System fapio gwybodaeth amgylcheddol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru / Mapiau
- Cyfoeth Naturiol Cymru / Canfod ardaloedd o dir a môr gwarchodedig
- Catalog data | DataMapCymru (llyw.cymru)
- Hafan – NBN Atlas Cymru

## Derbynyddion sensitif eraill

Yn ogystal â'r derbynyddion penodol uchod, ceir derbynyddion sensitif eraill y mae'n rhaid i chi eu hystyried mewn unrhyw asesiad risg. Gallai'r rhain gynnwys (er enghraifft):

- Coetiroedd hynafol
- Ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol
- Arfordir treftadaeth
- Gwarchodfeydd natur neu safleoedd bywyd gwyllt lleol
- Parciau neu warchodfeydd natur cenedlaethol
- Henebion cofrestredig
- Safleoedd treftadaeth y byd
- Dyfroedd a reolir fel afonydd a llynnoedd

Mae'n rhaid hefyd i'ch gwaith gwastraff beidio ag achosi niwed i iechyd pobl, gan gynnwys achosi niwsans, felly byddwn yn ystyried unrhyw effeithiau ar bobl sy'n byw, yn gweithio neu'n defnyddio amwynderau, e.e. llwybrau troed, o gwmpas y lleoliadau taenu a storio. Mae canllawiau ychwanegol wedi eu cynnwys yn TGN 8.01.

## Rhywogaethau gwarchodedig

Mae gennym ddyletswydd i warchod rhywogaethau â blaenoriaeth a chynefinoedd â blaenoriaeth adran 7 a rhywogaethau a warchodir yn genedlaethol ac ar lefel Ewrop gyfan.

Mae data ar rywogaethau a warchodir yn aml wedi eu cyfyngu i sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod yn barhaus, felly er y byddwn yn cynnal asesiad efallai na fyddwch yn gallu canfod yr wybodaeth hon yn uniongyrchol. Byddwn yn dweud wrthych os oes camau ychwanegol y mae angen i chi eu cymryd er mwyn gallu cyflawni eich gwaith gwastraff. Mae canllawiau ychwanegol wedi eu cynnwys yn TGN 8.01.

# Rhestr wirio cais ar gyfer SR2010 Rhif 4

Gwiriwch fod eich cais i ddefnydd offer yn cynnwys y canlynol:

- A ydyw'r cyfeirnodau grid (ar gyfer caeau a mannau storio) yn cyfateb i'r lleoliadau ar y map?
- A ydyw'r cyfeirnodau grid yn y fformat cywir, h.y. AB 12345 67890?
- A ydyw manylion triniaeth flaenorol o'r tir wedi cael eu darparu?
- A ydych chi wedi cynnwys map o'r lleoliad?
- A ydych chi wedi cynnwys cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer y gwaith gan y meddiannydd / meddianwyr?
- A ydyw'r map yn cynnwys yr holl nodweddion perthnasol fel y'u nodir yn y canllawiau?
- A ydych chi wedi cynnwys dadansoddiad gwastraff?
- A ydyw'r dadansoddiad gwastraff ar gyfer pob math o wastraff yn llai na 12 mis oed?
- A ydyw'r dadansoddiad gwastraff yn cynnwys pH, nitrogen (N), ffosfforws (P), potasiwm (K), % y deunydd sych ac elfennau gwenwynig posibl (PTEs)?
- A ydych chi wedi cynnwys dadansoddiad o'r pridd?
- A ydyw'r dadansoddiad pridd ar gyfer pob cae yn llai na phedair mlwydd oed?
- A ydyw'r dadansoddiad pridd yn darparu pH y pridd a'i gynnwys potasiwm (K), ffosfforws (P), magnesiwm (Mg) a PTEs os yw eu cyfraddau'n uchel yn y gwastraff?
- A ydyw'r mynegeion pridd ar gyfer P, K a Mg ar gyfer pob cae wedi cael eu darparu?
- A ydych chi wedi cynnwys Tystysgrif o Fudd Amaethyddol?
- A ydyw'r drefn tyfu cnwd arfaethedig wedi cael ei nodi?
- A ydyw cyfradd y defnydd gwastraff wedi cael ei nodi?
- A ydyw amseriad y defnydd wedi cael ei nodi ac a ydyw'n briodol ar gyfer y drefn tyfu cnwd?
- A ydyw'r dull taenu gwastraff arfaethedig wedi cael ei nodi?

- A ydyw cyfanswm y maethynnau a gyflenwir gan y gwastraff wedi cael ei nodi, ac a ydyw wedi cael ei ddarparu mewn fformat ocsid?
- A ydyw'r gofyniad maethynnau ar gyfer y cnwd arfaethedig wedi cael ei ddarparu?
- A ydyw'r cyflenwad nitrogen pridd (SNS) ar gyfer pob cae wedi cael ei ddarparu?
- Os yw'r tir wedi cael ei drin gyda mathau eraill o wastraff, slwtsh carthion, slyri, tail ac ati yn y 12 mis diwethaf, a oes gwybodaeth berthnasol wedi cael ei darparu?
- Os bydd mwy nag un ffrwd wastraff yn cael ei chymhwyso i'r tir, a ddangoswyd y budd ar gyfer pob ffrwd wastraff unigol?
- A ydych chi wedi cynnwys asesiad risg safle-benodol (lle bo'n berthnasol)?
- A ydyw'r asesiad risg penodol i'r safle yn ystyried yr holl dderbynyddion posibl, yn nodi'r holl risgiau o'r gweithgaredd, ac yn cynnwys gwybodaeth am yr holl fesurau y byddwch yn eu defnyddio i sicrhau bod yr effaith mor fach â phosibl neu'n cael ei lliniaru a pham y maent yn addas?
- Tystiolaeth ar gyfer gwarchod cynefinoedd ac ecosystemau

DIWEDD Y DDOGFEN